*Yn amodol ar gontract*

# Ar Osod

## 83 Gerddi Grays, Graig Y Rhacca, Caerffili, CF83 8TQ

## £2,500 Y Flwyddyn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn falch o gynnig yr eiddo uchod i'w osod ar gyfer defnydd masnachol.

Mae’r siop llawr gwaelod wedi’i lleoli yn Grays Gardens ar ystâd breswyl Graig-y-rhaca, Caerffili.

Mae'r eiddo'n cynnwys toiled ar y llawr gwaelod, cyfleusterau cegin gyda 2 ystafell fawr, a chypyrddau storio. Mae mynediad i barcio cerbydau i'r cefn.

Yr eiddo delfrydol i ddechrau busnes newydd. Efallai y bydd grant dechrau busnes Caerffili ar gael. Cysylltwch â'r Tîm Menter Fusnes ac Adnewyddu ar 01443 866220 (neu gallwch chi gyflwyno cais ar ein gwefan) i gadarnhau a fyddech chi'n gymwys i gael cymorth i sefydlu busnes newydd.



## Rhaid trefnu apwyntiad I ymweld â’r eiddo

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad

Lisa Jennings 01443 864102 Jennil2@caerffili.gov.uk

Lesley Thomas 01443 864094 thomal17@caerffili.gov.uk

*Yn amodol ar gontract*

## LLEOLIAD

Mae'r eiddo wedi'i leoli yn Grays Gardens ym mhentref preswyl Graig-y-rhaca, Caerffili.

## DISGRIFIAD

Mae'r eiddo'n cynnwys toiled ar y llawr gwaelod, cyfleusterau cegin gyda 2 ystafell fawr, a chypyrddau storio. Mae modd cael mynediad at yr eiddo trwy brif ffryntiad y siop neu'r cefn. Mae mynediad i barcio cerbydau i'r cefn. Roedd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio fel siop yn flaenorol.

## ARDRETHI A CHOSTAU

Gwerth Ardrethol yr eiddo ar gyfer 2023 yw £1,925. Darpar denant i fod yn gyfrifol am yr holl daliadau eraill ynghyd â rhwymedigaethau cynnal a chadw statudol.

## FFIOEDD

Darpar denant i fod yn gyfrifol am ffioedd proffesiynol y landlord yn y trafodiad ynghyd â'u ffioedd eu hunain.

## DEILIADAETH A THELERAU

Gwahoddir cynigion i osod ar brydles fasnachol ar delerau i'w cytuno. Cynigir meddiant gwag.

## CYNLLUNIO

Partïon â diddordeb i gysylltu â'r Adran Gynllunio i sicrhau bod y defnydd gofynnol yn dderbyniol ac i gadarnhau a fyddai angen caniatâd newid defnydd.

## CYNLLUNIAU

Mae'r cynlluniau a'r ffotograffau, sydd ynghlwm wrth y manylion hyn, at ddiben adnabod yn unig

## YMWELD Â'R EIDDO

Mae pob ymweliad â'r eiddo drwy apwyntiad yn unig. Cysylltwch â Lisa Jennings 01443 864102 neu Lesley Thomas 01443 864094. Mae'r eiddo i'w rentu gyda meddiant gwag.

## GWASANAETHAU

Mae'r eiddo wedi'i gysylltu â gwasanaethau'r prif gyflenwad, ond dylai darpar denant wneud eu hymholiadau eu hunain ynghylch argaeledd a chapasiti gwasanaethau o'r fath.

## TELERAU LES

Bydd ar gael ar gais cyn ymweld â'r eiddo.

## Tystysgrif Perfformiad Ynni

Y sgôr effeithlonrwydd ynni ar gyfer yr eiddo hwn yw C. Mae copi o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gael ar gais.

## MANYLION CYSWLLT


**Gwasanaethau Tir ac Eiddo**
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
Property@caerffili.gov.uk

**Cynllunio**
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
Planning@caerffili.gov.uk




*Yn amodol ar gontract*

Mae’r cynllun a golygfa o'r awyr at ddibenion adnabod yn unig.






I. Mae’r manylion wedi’u nodi fel amlinelliad cyffredinol yn unig ar gyfer cyfarwyddyd i'r prynwyr arfaethedig, ac nid ydyn nhw’n gyfystyr nac yn rhan o gynnig neu gontract;

II. Mae’r holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cyfeiriadau at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio a meddiannu, a manylion eraill yn cael eu rhoi heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw brynwyr posibl ddibynnu arnyn nhw fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith ond rhaid iddyn nhw fodloni eu hunain drwy arolygiad neu fel arall o ran cywirdeb pob un ohonyn nhw;

III. Nid oes gan unrhyw un sydd wedi’i gyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili unrhyw awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau i warantu unrhyw beth mewn perthynas â'r eiddo hwn; nid yw'r awdurdod hwn yn rhwym i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.